Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Adroddiad Monitro Cysylltiadau Rhyngwladol

Ionawr 2024 – Rhifyn 1

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 2**

**2. Rhyngwladol ..... 3**

Datblygiadau allweddol ..... 3

Diweddariadau eraill ..... 4

**3. Ewrop ..... 7**

Datblygiadau allweddol ..... 7

Diweddariadau eraill ..... 7

Ymweliadau Allanol/Mewnol Gweinidogol Llywodraeth Cymru: Hydref – Rhagfyr 2023 ..... 8

# 1. Cyflwyniad

Mae gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol gylch gwaith eang sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd. Ym mis Mawrth 2022, nododd y Pwyllgor ei fwriad i fonitro gwaith rhyngwladol Gweinidogion Cymru yn rheolaidd fel rhan o'i strategaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd.

Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor ym maes cysylltiadau rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys datganiadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â chyrff cyhoeddus, partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid. Bydd cyhoeddiadau perthnasol gan Ymchwil y Senedd hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Medi 2023 a mis Rhagfyr 2023.

# 2. Rhyngwladol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r datblygiadau allweddol a gwmpesir gan Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a diweddariadau perthnasol eraill.

## Datblygiadau allweddol

### Agwedd ffeministaidd Llywodraeth yr Alban at gysylltiadau rhyngwladol

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei phapur safbwynt ar gwmpas ac egwyddorion arweiniol ei hagwedd ffeministaidd at gysylltiadau rhyngwladol. Dywedodd:

> *a feminist approach for Scotland will leverage all aspects of Scotland's international policy to advance gender equality and the rights of women, girls and marginalised groups.*

### Cymru yn Ffrainc 2023

Amlinellodd Llywodraeth Cymru weithgareddau a gynhaliwyd o amgylch Cwpan Rygbi'r Byd yn ystod mis Medi a mis Hydref, fel rhan o Cymru yn Ffrainc 2023. Roedd ymweliadau gweinidogol yn cynnwys Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a Phrif Weinidog Cymru.

### Cymru yn India 2024

Mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau mai 2024 fydd blwyddyn Cymru yn India, pryd y bydd y ffocws ar ddatblygu cysylltiadau masnach a buddsoddi, pŵer meddal a chysylltiadau iechyd y GIG.

### Llywodraeth Cymru i ddiweddaru Cenedl Noddfa yn 2024

Yn ystod diweddariad ar Genedl Noddfa ar 19 Medi 2023, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cynllun ym mis Rhagfyr 2023 cyn cyhoeddi'r cynllun wedi'i adnewyddu yn 2024. Mewn ymateb i gwestiwn llafar ar 13 Rhagfyr 2023, dywedodd y Gweinidog:

> *Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cenedl noddfa 2023 cyn bo hir, sy'n dangos cynnydd da a pharhaus. Ar hyn o bryd rydym yn gwneud gwaith i adnewyddu ein 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches' a byddwn yn ymgysylltu â'r rhai y mae ein gwaith yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn ystod yr wythnosau nesaf.*

Mynychodd y Gweinidog hefyd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, gan fynegi ei:

> *siom yn y cyfarfod nad oedd Llywodraeth y DU wedi ystyried pleidlais y Senedd i wrthod cydsynio i'r Bil Mudo Anghyfreithlon.*

Pwysleisiodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn Genedl Noddfa.

### Traddodiadau Cymreig i'w cydnabod yn ffurfiol wrth i'r DU ymuno â Chonfensiwn UNESCO

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gadarnhau Confensiwn UNESCO 2003 ar gyfer Diogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, gan lansio ymgynghoriad i geisio barn y cyhoedd ar sut i weithredu'r Confensiwn ledled y DU. Bydd y cam hwn yn galluogi cymunedau yng Nghymru i enwebu traddodiadau fel y Fari Lwyd a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi i'w cynnwys mewn cofrestr newydd o dreftadaeth ddiwylliannol y DU. Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod wedi, ac y bydd yn parhau i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i weithredu'r confensiwn a choladu'r gofrestr, y disgwylir iddi agor ar gyfer enwebiadau y flwyddyn nesaf.

### Cyfarfod yr Alban a Thwrci yn torri'r protocol, yn ôl Ysgrifennydd Tramor y DU

Yn dilyn cyfarfod rhwng Prif Weinidog yr Alban, Humza Yousaf, a Llywydd Twrci, Recep Tayyip Erdogan, cyhoeddodd David Cameron, Ysgrifennydd Tramor y DU, lythyr yn dweud bod y cyfarfod wedi torri protocolau ar gymorth Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) i ymweliadau tramor gweinidogion y llywodraeth ddatganoledig. Roedd hyn oherwydd nad oedd unrhyw swyddog o'r DU yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd yr Arglwydd Cameron y byddai cymorth y FCDO yn cael ei dynnu'n ôl pe bai toriadau dilynol yn digwydd.

### Y Cwnsler Cyffredinol yn pwyso am Grŵp Gweinidogol Rhynglywodraethol ar Gysylltiadau Rhyngwladol

Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar ei bresenoldeb ym mhumed cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) ar 19 Hydref 2023. Fel rhan o'r drafodaeth yn ymwneud â materion rhyngwladol a'r Papur Gwyn ar Ddatblygu Rhyngwladol, pwysodd y Cwnsler Cyffredinol i ystyriaeth bellach gael ei rhoi i Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol. Roedd yr IMSC yn cytuno i ystyried sut i sicrhau bod materion rhyngwladol yn cael eu hystyried yn briodol yn y system Cysylltiadau Rhynglywodraethol, gan gynnwys drwy ymgysylltu ar lefel gweinidogol. Dywedodd y byddai'n dychwelyd at y mater.

## Diweddariadau eraill

| Mis | Ffynhonnell | Manylion |
|---|---|---|
| Rhagfyr | Llywodraeth Cymru | Cadarnhaodd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn anfon tri swyddog i COP 28. |

| Mis | Ffynhonnell | Manylion |
|---|---|---|
| | Cymru Fyd-eang | Ymwelodd Cymru Fyd-eang â Fietnam fel rhan o'r prosiect partneriaeth Going Global. Roedd y ffocws ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau fel rhan o ddiwygio system Addysg Uwch Fietnam. |
| | Llywodraeth Cymru (*Cymru yng Ngogledd America*) | Lansiodd tîm Cymru yng Ngogledd America ei rhaglen fabwysiadu llysgenhadaeth flynyddol, ochr yn ochr â Llywodraeth yr Alban. |
| | Llywodraeth Cymru *(Rhyngwladol)* | Roedd Pennaeth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica Llywodraeth Cymru yn bresennol ym mrecwast Gweithredu dros Rymuso Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig i drafod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. |
| Tachwedd | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Cadarnhaodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru drwy ei wefan nad yw Cynllun grantiau bach Cymru-Affrica ar gael ar hyn o bryd. Mae'n gallu dyfarnu pot grant o £90,000 ar gyfer prosiectau grymuso menywod yn Uganda a Lesotho. |
| Hydref | Llywodraeth Cymru | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar Taith, gan amlygu bod 11,000 o bobl wedi cymryd rhan yn y rhaglen. |
| | Cwestiwn Ysgrifenedig WQ89306 (e) | Sam Rowlands: A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu rhestr o ymweliadau gan Weinidogion Llywodraeth Cymru â swyddfeydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru ers dechrau tymor y Senedd hon?<br>▪ Cyflwynwyd: 12 Hydref<br>▪ Ateb i'w ddisgwyl ar: 19 Hydref<br>▪ Heb ei ateb eto |
| | Llywodraeth Cymru | Cyfarfu'r Gymdeithas Gonsylaidd yng Nghymru â Llywodraeth Cymru i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin a chydweithredu. |
| | Llywodraeth Cymru (*Cymru yng Ngogledd America*) | Mynychodd Cymru yng Ngogledd America Uwchgynhadledd Earthshot Innovation, ochr yn ochr â Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. |

| Mis | Ffynhonnell | Manylion |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru (*Cymru yng Ngogledd America*) | Cyfarfu Cymru yng Ngogledd America â'r Prif Weinidog i drafod gwaith y tîm. |
| | Llywodraeth Cymru | Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r llysgenhadon a ganlyn:<br>▪ Llysgennad yr Unol Daleithiau<br>▪ Llysgennad Gwlad Thai<br>▪ Llysgennad yr Eidal<br>▪ Llysgennad Ariannin |

# 3. Ewrop

Mae'r adran hon yn crynhoi'r newyddion diweddaraf yn ymwneud ag Ewrop, ac yn rhestru diweddariadau pwysig.

## Datblygiadau allweddol

### Rhaglen Gydweithredu Iwerddon a Chymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cronfeydd yr UE: Adroddiad gweithredu blynyddol Rhaglen Gydweithredu Iwerddon a Chymru 2022.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y rhaglen, erbyn diwedd 2022, wedi ymrwymo buddsoddiad yn llawn mewn 24 o brosiectau trawsffiniol. Mae'n cynnwys astudiaethau achos yn ymwneud â phrosiectau CHERISH a CUPHAT, a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

### Ymweliad y Pwyllgor Deddfwriaeth â Brwsel

Ymwelodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad â Brwsel fel rhan o'i ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE. Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar rôl deddfwrfeydd a llywodraethau datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Gwnaeth ei adroddiad nifer o argymhellion, gan gynnwys adleisio galwad y Pwyllgor hwn i Lywodraeth Cymru nodi ei blaenoriaethau strategol mewn strategaeth benodol gan yr UE, neu mewn Strategaeth Ryngwladol ar ei newydd wedd.

## Diweddariadau eraill

| Mis | Ffynhonnell | Manylion |
|---|---|---|
| Rhagfyr | Llywodraeth Cymru (*Cymru yn Ewrop*) | Cyfarfu Cymru yn Ewrop â chynrychiolydd Llywodraeth Gibraltar. |
| Tachwedd | Llywodraeth Cymru (*Cymru yn Ewrop*) | Cyfarfu Cymru yn Ewrop â'r Dirprwy Gynrychiolydd Cyffredinol o'r Ddirprwyaeth o Fflandrys. |
| Medi | Llywodraeth Cymru *(Cymru yn Ewrop)* | Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ag Aelodau o Senedd Ewrop ym Mrwsel i hyrwyddo'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol. |

| Mis | Ffynhonnell | Manylion |
|---|---|---|
| | Llywodraeth y DU | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddatganiad ar y cyd ar gyfarfod Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael, 28 Medi 2023 |
| | Llywodraeth y DU | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddatganiad ar ôl pedwerydd cyfarfod y Cyd-bwyllgor Cytundeb Gwahanu rhwng y DU a gwladwriaethau EFTA yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. |

## Ymweliadau Allanol/Mewnol Gweinidogol Llywodraeth Cymru: Hydref – Rhagfyr 2023

| Gweinidog/Gwestai | Lleoliad | Diben yr ymweliad | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Uchel Gomisiynydd Awstralia** | Cymru | Cyfarfu Gweinidog yr Economi â'r Uchel Gomisiynydd fel rhan o Wythnos Dechnoleg Cymru. Trafododd eu cyfarfod gyfleoedd ar gyfer mwy o fasnach, cydweithredu a buddsoddi mewn technoleg a seiber. | Hydref 2023 |
| **Gweinidogion Iwerddon** | Cymru | Cyfarfu'r Prif Weinidog ac aelodau eraill o'r Cabinet â'r Tánaiste a'r Gweinidog Materion Tramor ac Amddiffyn, a Gweinidog Iwerddon dros Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Ymchwil, Arloesedd a Gwyddoniaeth fel rhan o Fforwm Gweinidogol Cymru ac Iwerddon yng ngogledd Cymru. Cyhoeddwyd y manylion mewn datganiad ysgrifenedig. | Hydref 2023 |
| **Uchel Gomisiynydd Seland Newydd** | Cymru | Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Uchel Gomisiynydd i rannu'r hyn a ddysgwyd ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol, y Gynghrair Llesiant, a phleidlais pobl ifanc. Cyfarfu'r Uchel Gomisiynydd hefyd â'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a mynychodd y digwyddiad Blas Cymru. | Hydref 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (ddim ar restr Llywodraeth Cymru)** | Cymru | Cyfarfu'r OECD â Gweinidog yr Economi i drafod prosiect ar ddatblygu rhanbarthol. | Hydref 2023 |
| **Y Prif Weinidog** | Ffrainc | Ymwelodd y Prif Weinidog â Ffrainc i gymryd rhan mewn rhaglen o ddigwyddiadau i ddathlu blwyddyn Cymru yn Ffrainc ac i gefnogi gweithgarwch hyrwyddo yn ymwneud â chamau grŵp Cwpan Rygbi'r Byd. Cafodd y manylion am yr ymweliad eu cyhoeddi mewn datganiad ysgrifenedig. | Hydref 2023 |
| **Pennaeth Cenhadaeth Palestina i'r DU** | Cymru | Cyfarfu'r Prif Weinidog â Phennaeth Cenhadaeth Palestina i'r DU i drafod y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. | Tachwedd 2023 |
| **Llysgennad Japan i'r DU** | Cymru | Ymwelodd y Llysgennad â Chymru i fynychu digwyddiad i ddathlu 50 mlynedd o fuddsoddiad Japan yng Nghymru. Cynhaliodd y Prif Weinidog gyfarfod dwyochrog â'r Llysgennad i drafod cysylltiadau Cymru a Japan a chyfarfu Gweinidog yr Economi â'r Llysgennad mewn cinio busnes gyda'r nos. | Tachwedd 2023 |
| **Uchel Gomisiynydd India** | Cymru | Cyfarfu'r Prif Weinidog ag Uchel Gomisiynydd India mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gyngor Sikhiaid Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Trafodwyd ymgyrch Cymru yn India 2024 a chynlluniau ar gyfer derbyniad yn yr Uchel Gomisiwn o amgylch Dydd Gŵyl Dewi y flwyddyn nesaf. | Tachwedd 2023 |
| **Cyn-gwpl cyntaf, Hillary a Bill Clinton** | Abertawe | Cyfarfu'r Prif Weinidog â Hillary a Bill Clinton pan gymerodd bob un ohonynt ran yn Uwchgynhadledd Heriau Byd-eang Hillary Rodham-Clinton ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd y | Tachwedd 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | digwyddiad yn trafod rhai o'r materion byd-eang pwysicaf, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol, yr argyfwng hinsawdd ac arweinyddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | |
| **Gweinidog yr Economi** | Yr Almaen | Ymwelodd Gweinidog yr Economi â'r Almaen am dri diwrnod, gan deithio i Düsseldorf, Stuttgart a Munich. Roedd yr ymweliad yn cynnwys llofnodi Datganiad o Gydweithrediad rhwng Cymru a thalaith Baden-Württemberg yn yr Almaen, ymweliad â MEDICA i gefnogi cwmnïau gwyddorau bywyd Cymru, ac ymweliad â Semicon Europa 2023. | Tachwedd 2023 |
| **Y Prif Weinidog** | Iwerddon | Mynychodd y Prif Weinidog gyfarfod rhif 40 o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar 23 a 24 Tachwedd, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Iwerddon. Cyhoeddwyd Communiqué ar y cyd ar ôl yr Uwchgynhadledd, sydd ar gael yma. | Tachwedd 2023 |
| Dim ymweliadau Gweinidogol ym mis Rhagfyr | | | |